

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

### Bil Cenedligrwydd a Ffiniau

#### Cefndir

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS”) 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y gellir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os bydd Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sy'n dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n newid y cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau (“y Bil”) yn Senedd y DU, Tŷ'r Cyffredin ar 6 Gorffennaf 2021. Mae'r Bil ar gael yma: <https://bills.parliament.uk/bills/3023>
3. Roedd y Bil fel y'i cyflwynwyd yn cynnwys “cymal dalfan” yng nghymal 58, yn ymwneud â'r asesiad oedran. Dechreuwyd ystyried y Bil ar Gam Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar 21 Medi, a daeth y broses i ben ar 4 Tachwedd. Ar 21 Hydref, cyflwynodd un o Weinidogion y DU, Tom Pursglove, gymalau 48-56 newydd i ddisodli'r cymal 58 gwreiddiol. Cytunwyd ar y diwygiadau hynny a'u cynnwys fel rhan o'r Bil ar 4 Tachwedd.
4. Mae cymalau 48-55 (ac eithrio cymal 50), yn ymwneud ag asesiad oedran plant a phobl ifanc sy'n ceisio lloches, a chymal 79 (y pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol), yn effeithio ar faes nas cadwyd yn ôl o ofal cymdeithasol, felly mae angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd.

#### Amcan Polisi

5. Amcan datganedig Llywodraeth y DU yw ceisio gwella'r fframwaith ar gyfer pennu oedran, gan gynnwys drwy ddefnyddio technoleg wyddonol, er mwyn sicrhau y gellir adnabod plant agored i niwed y mae angen cymorth arnynt yn gyflym, a mynd i'r afael â'r risgiau diogelu sy'n gysylltiedig ag achosion pan fydd oedolion yn honni eu bod yn blant.

#### Crynodeb o'r Bil

6. Noddir y Bil gan y Swyddfa Gartref. Mae'r Bil yn fawr ac yn gymhleth, ac yn ymdrin â materion mewnfudo a gedwir yn ôl yn bennaf. Bydd llawer o'r darpariaethau yn cael effaith uniongyrchol ar faterion lle mae gan Weinidogion Cymru gymhwysedd datganoledig – fel cydlyniant cymunedol, integreiddio ymfudwyr a chynllunio – ond mae bron pob un o gymalau'r Bil y tu allan i'r cwmpas ar gyfer memorandwm cydsyniad deddfwriaethol
7. Mae gan y Bil dri phrif amcan datganedig:
  - Gwneud y system [mewnfudo] yn decach ac yn fwy effeithiol;
  - Annog pobl i beidio â dod i'r DU yn anghyfreithlon;
  - Symud y rhai nad oes ganddynt hawl i fod yma o'r DU.

8. Mae'r Bil yn cynnig newidiadau eang i system mewnfudo a lloches y DU, gan gynnwys:
- Cyflwyno statws diogelu dros dro newydd i'r rhai nad ydynt yn dod yn uniongyrchol i'r DU neu sy'n ceisio lloches yn ddi-oed;
  - Cyflwyno canolfannau llety i geiswyr lloches a cheiswyr lloches y mae eu ceisiadau wedi cael eu gwrthod;
  - Ei gwneud yn ofynnol i geiswyr lloches gyflwyno eu hawliad am loches wedi'i gwblhau yn fuan ar ôl iddynt gyrraedd;
  - Diwygio cyfraith cenedligrwydd i fynd i'r afael ag anomaledau hanesyddol;
  - Addasu mesurau diogelu yn ymwneud â chaethwasiaeth fodern;
  - Cyflwyno troseddau llymach i'r rhai sy'n ceisio dod i'r DU heb ganiatâd;
  - Darparu pwerau ychwanegol i swyddogion Llu'r Ffiniau i atal pobl rhag dod i'r DU;
  - Cynyddu'r cosbau i Droseddwyr sy'n Wladolion Tramor sy'n dychwelyd i'r DU gan dorri gorchymyn allgludo;
  - Rhoi cynllun Awdurdodi Teithio Electronig ar waith;
  - Cyflwyno pwerau newydd i symud pobl i drydydd gwledydd diogel;
  - Cyflwyno cosbau o ran fisa ar wledydd nad ydynt yn cydweithredu i symud eu gwladolion;
  - Diwygio'r system apeliadau lloches i gyflwyno cyfnod rhybudd gofynnol safonol i fewnfudwyr geisio cyfiawnder cyn eu hallgludo'n orfodol.

### Diben asesiadau oedran

9. Mae'r arfer o asesu oedran yn cael ei chynnal yn bennaf er mwyn pennu a ddylai unigolyn gael mynediad at wasanaethau cymdeithasol plant (ai peidio). Mae'n berthnasol i unigolion sy'n ceisio lloches sy'n cyrraedd y DU ar eu pen eu hunain heb ddogfennaeth i ddangos tystiolaeth o'u hoedran. Mae'r arfer wedi datblygu dros sawl degawd ac wedi'i hategu gan gyfraith achosion, yn bennaf dyfarniad *R (B) v London Borough of Merton 2003*<sup>1</sup>. Merton yw'r meincnod safon ar gyfer asesu oedran. Mae'n rhoi'r cyfrifoldeb ar wasanaethau cymdeithasol plant i gyflawni'r swyddogaeth, ac i grynhoi (yn yr iaith wreiddiol):

*“The Judge confirmed that the local authority “cannot simply adopt a decision made by UK Visas and Immigration”. The Judge also stated that assessments cannot be made on the basis of demeanour only; that a range of other factors must be taken in to account; there is a duty on decision makers to give reasons for their decisions; the child/young person must be allowed to participate; that two social workers must conduct the assessment together and where there is doubt about age, the child/young person must receive the ‘benefit of the doubt’.”*

10. Ers 2003, mae'r gyfraith achosion wedi datblygu ymhellach mewn perthynas â'r swyddogaeth asesu oedran, yn bennaf mewn perthynas ag *AB v Kent County*

---

<sup>1</sup> <http://www.bailii.org/ew/cases/EWHC/Admin/2003/1689.html>

*Council (2020) EWHC 109 (Admin)* sy'n disgrifio cyfuniad o ofynion Merton a phob cyfraith achosion ddilynol.

11. Ar 24 Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei Chynllun Newydd ar gyfer Mewnfudo (NPfl) ar gyfer ymgynghoriad. Mae'n nodi cynigion yn ymwneud ag asesu oedran plant a phobl ifanc ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches. Roedd y rhain yn ymwneud â sefydlu Bwrdd Asesu Oedran Cenedlaethol (NAAB); llunio Rheoliadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol o ran y gweithdrefnau i'w dilyn yn y broses asesu oedran; y defnydd o ddulliau gwyddonol i bennu oedran; a chynigion i ddiwygio trefniadau apelio.
12. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad hwnnw, gan nodi ein safbwynt polisi hirsefydlog sy'n llywio'r safbwynt ymarfer yn seiliedig ar gyfraith achosion, ac sy'n nodi mai cyfrifoldeb gwasanaethau cymdeithasol plant yw'r swyddogaeth asesu oedran. Er hwylustod, nodir rhan o'r ymateb isod:

2a. "Yng Nghymru, rydym yn trin pob ceisiwr lloches ar ei ben ei hun fel plentyn sy'n derbyn gofal yn unol â Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer amrywiaeth o swyddogaethau asesu ac rydym yn trin asesiadau oedran fel rhan o swyddogaethau asesu'r 'hyn sy'n bwysig' y darperir ar eu cyfer yn Rhan 4 o'r Ddeddf. Mae'r holl swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru ac fel y cyfryw, Gweinidogion Cymru sy'n gwneud yr holl benderfyniadau deddfwriaethol a pholisi sy'n ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol. Fel y maent wedi'u nodi ar hyn o bryd, nid yw cynigion y Cynllun Newydd yn cydnabod y cyd-destun datganoledig ac felly mae'n bwysig ein bod yn nodi y dylai unrhyw ddeddfwriaeth a gaiff ei llunio sy'n effeithio ar y swyddogaethau datganoledig hyn fod yn destun Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol, wedi'u llunio yn Senedd Cymru. Ac wrth gwrs, mae'n ofynnol i unrhyw ddeddfwriaeth a gaiff ei chreu gan Lywodraeth y DU gael ei llywio gan gyfraith achosion bresennol yn y maes hwn, sef Merton ond hefyd, er enghraifft, *AB v Kent County Council (2020) EWHC 109 (Admin)*.

2b. Yn dilyn y cyfarfod rhwng ein swyddogion a swyddogion y Swyddfa Gartref ar 27 Mai, deallwn y bydd yr NAAB yn gorff sy'n gymwys i Loegr yn unig. Serch hyn, rydym o'r farn ei bod yn bwysig rhoi sylwadau ar y cynnig. Ni roddir llawer o wybodaeth am gyfansoddiad na swyddogaethau'r NAAB. Unwaith eto, ymddengys nad ystyriwyd datganoli swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn llwyr i Gymru gan nad oes unrhyw gynigio penodol am gynrychioli Cymru (na'r Alban a Gogledd Iwerddon). Mae'r swyddogaeth asesu yn ddyletswydd graidd i weithwyr cymdeithasol ac mae'r asesiad oedran yn rhan o hyn. Nid ydym yn cefnogi unrhyw gamau a fyddai'n lleihau rôl arweiniol, awdurdodol gweithwyr cymdeithasol yn y swyddogaeth hon, ac mae hyn yn cynnwys deddfu ar gyfer swyddogion nad oes ganddynt yr arbenigedd, y profiad na'r sgiliau i gynnal yr asesiadau hyn. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gofyn am wybodaeth am yr hyfforddiant y mae swyddogion mewnfudo yn ei gael i asesu oedran yn unol â gofynion deddfwriaethol CCUHP a gwasanaethau cymdeithasol Cymru. Nid yw erioed wedi'i darparu. At ei gilydd, rydym yn pryderu ynghylch unrhyw ymgais gan Lywodraeth y DU i ganoli'r prosesau hyn, a allai leihau dyletswyddau a

swyddogaethau cenedlaethol presennol Cymru yn y maes hwn. Mae angen i ni weld cymalau drafft manwl er mwyn deall mwy am yr hyn rydych yn ceisio'i gyflawni a'n galluogi i ymateb yn fanylach.

...

2i. Yn olaf, hoffem eich atgoffa bod Deddf 2014 yn ymgorffori cydymffurfiaeth â CCUHP yng nghyfraith ddomestig Cymru. Roedd Gweinidogion Cymru yn glir yn eu manifesto ar gyfer etholiadau'r Senedd y byddent yn parhau i gynnal hawliau a hawliadau plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches.' Rydym yn falch o arddel y safbwynt, 'plentyn yn gyntaf, mudwr yn ail', sy'n cadarnhau'r dull o ddarparu gofal a chymorth i blant yng Nghymru sydd o blaid hawliau, hawliadau a budd gorau plant, ac ni fyddem yn cefnogi unrhyw gynnig polisi a fyddai'n ymddangos fel pe bai'n lleihau'r safbwynt statudol hwn. Mae hyn yn cynnwys y mwyafrif llethol o'r cynigion a nodir yn y Cynllun Newydd."

### **Safbwynt polisi presennol Llywodraeth Cymru**

13. Fel y nodir ym mharagraff 12 uchod, yn ein hymateb i 'Gynllun Newydd ar gyfer Mewnffudo' Llywodraeth y DU, mae ein safbwynt polisi'n deillio o gydymffurfiaeth â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, i weithredu er budd gorau plant. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi'r gofynion sydd ar awdurdodau lleol wrth bennu a oes gan blant anghenion gofal a chymorth y mae angen eu diwallu.
14. Mae'r Senedd eisoes wedi deddfu'n unol â hyn er mwyn sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu diwallu, ac nid ydym yn cytuno y dylai Llywodraeth y DU allu tanseilio cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd drwy ei gwneud yn ofynnol i atgyfeirio plant y ceir amheuaeth ynghylch eu hoedran at bartïon eraill i wneud penderfyniadau yn eu cylch, neu i orfodi'r defnydd o dystiolaeth neu ddulliau asesu oedran nad ystyrir yn arfer gorau yng Nghymru.
15. Mewn perthynas â dulliau 'gwyddonol' o bennu oedran, mae gennym bolisi presennol<sup>2</sup> ar y defnydd o adroddiadau meddygol mewn asesiadau oedran:

*"This Toolkit does not recommend or support the use of medical examinations as determinants of age. The science underpinning the determining of age is inconclusive, unclear and in any event, subjecting young people to invasive medical examinations is judged to be morally wrong".*

### **Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad yn eu cylch**

16. Mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â gofal cymdeithasol yng Nghymru gan gynnwys arfer swyddogaethau gofal

---

<sup>2</sup> <https://llyw.cymru/plant-ar-eu-pen-eu-hunain-syn-ceisio-lloches-pecyn-cymorth-asesu-oedran> Tudalen 27

cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer y darpariaethau isod am eu bod yn gwneud darpariaeth o ran materion datganoledig i'r graddau y maent yn ymwneud â phenderfyniadau a wneir gan awdurdodau datganoledig yng Nghymru o dan gymal 49(2)(a).

#### Cymal 48 - Dehongliad o Ran ac ati

17. Mae'r cymal hwn yn darparu dehongliad ar gyfer Rhan 4 o'r Bil, sy'n ymwneud ag asesiadau oedran. Mae hyn yn cynnwys diffinio "deddfwriaeth plant berthnasol" i gynnwys deddfwriaeth y senedd sy'n neilltuo cyfrifoldeb am swyddogaethau cyfatebol i awdurdodau lleol.
18. Yn ein barn ni, mae angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer y ddarpariaeth hon am ei bod yn effeithio ar faes datganoledig gofal cymdeithasol.

#### Cymal 49 - Unigolion sy'n destun rheolaethau mewnfudo: atgyfeirio neu asesu gan awdurdod lleol ac ati.

19. Mae'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol atgyfeirio unigolyn y ceir amheuaeth ynghylch ei oedran at y "person dynodedig" (y Bwrdd Asesu Oedran Cenedlaethol (NAAB)) am asesiad oedran, neu i gynnal yr asesiad ei hun, neu roi gwybod i'r Ysgrifennydd Gwladol yn ysgrifenedig ei fod yn fodlon bod yr unigolyn o'r oedran y mae'n honni ei fod (neu yr honnir ei fod).
20. Mae isadran (4) yn darparu, os yw'r awdurdod lleol yn cynnal ei asesiad oedran ei hun neu'n rhoi gwybod i'r Ysgrifennydd Gwladol ei fod wedi'i fodloni o ran oedran yr unigolyn, rhaid iddo ddarparu'r cyfryw dystiolaeth y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn amdani er mwyn i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried penderfyniad yr awdurdod lleol.
21. Mae is-baragraff (2)(a) yn nodi'n glir bod cymal 49 yn ymwneud â phenderfyniadau ynghylch a ddylid arfer swyddogaethau awdurdodau lleol yng Nghymru, a sut y dylid gwneud hyn, ym maes datganoledig asesu anghenion ar gyfer gofal a chymorth, a darparu gofal a chymorth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
22. Mae isadran (7) yn darparu y bydd penderfyniad gan y person dynodedig yn gyfrwymol ar awdurdod lleol yng Nghymru.
23. Yn ein barn ni, mae angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer y ddarpariaeth hon am ei bod yn effeithio ar faes datganoledig gofal cymdeithasol ac yn gosod swyddogaethau ar awdurdodau lleol yng Nghymru.

#### Cymal 51 - Defnyddio dulliau gwyddonol mewn asesiadau oedran

24. Mae'r cynnal hwn yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau yn pennu'r hyn a elwir yn "dulliau gwyddonol" y gellir eu defnyddio at ddibenion asesiadau oedran a gynhelir o dan gymal 49 neu gymal 50. Gallai'r dulliau hyn gynnwys archwilio neu fesur rhannau o'r corff gan ddefnyddio technoleg

delweddu (fel pelydr-x) a chymryd samplau er mwyn archwilio DNA. Mae isadran (7) yn darparu os bydd unigolyn yn gwrthod cydsynio (neu os bydd ei riant/gwarcheidwad yn gwrthod) heb reswm rhesymol, y bydd hyn yn cael effaith negyddol ar hygredd yr unigolyn (neu'r rhiant/gwarcheidwad). Nid yw'r adran hon yn atal y defnydd o ddull gwyddonol nad yw'n ddull penodedig at ddibenion asesiad oedran o dan gymal 49 (neu gymal 50) os bydd yr NAAB neu'r awdurdod lleol o'r farn bod y dull yn briodol ac y rhoddir cydsyniad. Fodd bynnag, nid ystyrir y bydd gwrthod rhoi cydsyniad ar gyfer y defnydd o'r cyfryw ddulliau yn cael effaith negyddol ar hygredd.

25. Yn ein barn ni, mae angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer y ddarpariaeth hon am ei bod yn effeithio ar faes datganoledig gofal cymdeithasol ac yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n gosod swyddogaethau ar awdurdodau lleol yng Nghymru.

#### Cymal 52 - Rheoliadau yn ymwneud ag asesiadau oedran

26. Mae'r cymal hwn yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau ynghylch asesiadau oedran a gynhelir o dan gymal 49 neu gymal 50. Gallai'r rheoliadau hyn sefydlu'r prosesau ar gyfer asesu oedran y byddai'n rhaid i awdurdodau lleol eu dilyn, amgylchiadau lle y gallai asesiadau oedran byrrach gael eu cynnal, amddiffyniadau a mesurau diogelu, y cymwysterau gofynnol i berson sy'n cynnal asesiadau oedran, gweithdrefnau ar gyfer dulliau gwyddonol a chanlyniadau diffyg cydymffurfio.

27. Gallai'r rheoliadau hefyd wneud darpariaethau ynghylch sut a phryd y byddai'n rhaid i awdurdod lleol hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol.

28. Yn ein barn ni, mae angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer y ddarpariaeth hon am ei bod yn effeithio ar faes datganoledig gofal cymdeithasol ac yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n gosod swyddogaethau ar awdurdodau lleol yng Nghymru.

#### Cymal 53 - Apeliadau yn ymwneud ag asesiadau oedran

29. Mae'r cymal hwn yn ymwneud ag apeliadau pan gynhelir asesiadau oedran o dan gymal 49 neu gymal 50 gan awdurdod lleol neu'r NAAB a bod yr awdurdod lleol neu'r NAAB yn penderfynu bod oedran yr unigolyn yn wahanol i'r hyn a honnir.

30. Mewn achos o'r fath, gall yr unigolyn wneud apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf. Yn ystod yr apêl, rhaid i'r Tribiwnlys benderfynu ar oedran yr unigolyn yn unol â'r hyn sy'n debygol o fod yn wir, a phennu dyddiad geni i'r unigolyn.

31. Mae penderfyniad gan y Tribiwnlys yn gyfrwymol ar Awdurdod Lleol sydd wedi arfer neu a all arfer swyddogaethau o dan ddeddfwriaeth plant berthnasol (sef Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yng Nghymru) mewn perthynas â'r unigolyn.

32. Yn ein barn ni, mae angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer y ddarpariaeth hon am ei bod yn effeithio ar faes datganoledig gofal cymdeithasol.

### Cymal 54 - Apeliadau yn ymwneud ag asesiadau oedran ategol

33. Mae'r cymal hwn yn ymwneud â'r ddarpariaeth weithdrefnol sy'n ymwneud â'r broses apelio o dan gymal 53. At hyn, mae'r cymal hwn yn rhoi'r pŵer i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf roi rhyddhad interim.
34. Yn ein barn ni, mae angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer y ddarpariaeth hon am ei bod yn effeithio ar faes datganoledig gofal cymdeithasol.

### Cymal 55 - Gwybodaeth newydd yn dilyn asesiad oedran neu apêl

35. Mae'r cymal hwn yn gwneud darpariaeth am sefyllfa pan fydd gwybodaeth newydd yn dod i'r amlwg ar ôl asesiad oedran neu apêl, gan ganiatáu i'r NAAB neu'r awdurdod lleol gynnal asesiad pellach (a allai fod yn destun apêl bellach) os ymddengys fod y wybodaeth yn gymhellol.
36. Yn ein barn ni, mae angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer y ddarpariaeth hon am ei bod yn effeithio ar faterion datganoledig ac yn gosod swyddogaethau ar awdurdodau datganoledig yng Nghymru.

### Cymal 79 – darpariaeth drosiannol a dilynol

37. Mae'r cymal hwn yn darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy reoliadau, wneud y cyfryw ddarpariaethau trosiannol neu dros dro ag sy'n briodol ym marn yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â darpariaethau'r Bil hwn yn dod i rym. Mae isadrannau 2 a 3 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau sy'n gwneud y cyfryw ddarpariaethau ag sy'n briodol ym marn yr Ysgrifennydd Gwladol o ganlyniad i'r Ddeddf. Gallai darpariaeth o'r fath ddiwygio, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad, gan gynnwys Mesur neu Ddeddf y Senedd ac unrhyw offeryn a wnaed o dan Fesur neu Ddeddf y Senedd.
38. Yn ein barn ni, mae angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer y cymal hwn am ei fod yn effeithio ar faes datganoledig gofal cymdeithasol.

### **Goblygiadau ariannol**

39. Nid yw nodiadau esboniadol y Bil yn darparu unrhyw wybodaeth am gostau ariannol y cymalau ar asesiadau oedran. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r "dulliau gwyddonol" a ragwelir a fyddai'n gofyn am offer gofal iechyd a gweithwyr gofal iechyd, byddai costau sylweddol yn cael eu rhoi ar awdurdodau lleol yng Nghymru a / neu gyrff iechyd yng Nghymru, gan y cymalau hyn a'r rheoliadau a wneir yn unol â hwy.

### **Casgliad ac argymhelliad**

40. Fel y nodir ym mharagraffau 16-38 uchod, mae'r Bil yn gwneud darpariaethau o fewn cymhwysedd datganoledig y Senedd ac felly mae angen cydsyniad y Senedd. Fodd bynnag, ni allaf argymhell bod y Senedd yn cydsynio â chynnwys y darpariaethau hyn yn y Bil am nad wyf o'r farn ei bod yn briodol i'r ddarpariaeth

hon gael ei gwneud mewn perthynas â gofal cymdeithasol yng Nghymru yn y Bil hwn.

**Jane Hutt AS**

**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**

**6 Rhagfyr 2021**